**Sesiwn 2000 - 2001 Rhif 31**

# PAPURAU BUSNES

## DYDD MAWRTH, 14 TACHWEDD 2000

## RHAN 1 - ADRAN A

## AGENDA

**Bydd y cyfarfod yn cychwyn am 2pm**

**Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru** (30 munud)
Mae rhestr o'r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe'r Siambr)

**Datganiad Busnes: Y Trefnydd**

**Dadl ar Ddogfennau Rhaglennu Sengl LEADER, INTERREG (rhaglen CYMRU - IWERDDON) a Mentrau Cymunedol URBAN**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

i. Yn nodi'r Dogfennau Rhaglennu Sengl drafft ar gyfer Leader +, INTERREG (rhaglen CYMRU-IWERDDON) a Mentrau Cymunedol URBAN, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Tachwedd 2000; ac

ii. Yn awdurdodi'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd i'w cyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd yn ddiweddarach y mis hwn yn unol â'r amserlen benodedig, gan gynnwys unrhyw yhwanegiadau neu welliannau ag sy'n angenrheidiol i fodloni gofynion y Comisiwn.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth – ond bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol.

(1+2+3)

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig fel pwynt bwled newydd:

Yn cydnabod bod y cyllid ychwanegol a ddyrannwyd yn yr Arolwg Cynhwysfawr o Wariant i ariannu Grantiau Ewropeaidd ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol a'r Mentrau Cymunedol yn cymryd yn ganiataol y bydd cynnydd graddol yn y gwariant gwirioneddol, ac yn annog Llywodraeth Glymblaid Cymru i bwyso ar y Trysorlys i sicrhau y bydd y cyllid ychwanegol yn cael ei ddyrannu os bydd y gwariant ar brosiectau dilys yn cynyddu'n gynt nag a dybiwyd yn yr Arolwg Cynhwysfawr o Wariant.

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig fel pwynt bwled newydd:

Yn gresynu bod y cysylltiad rhwng y Fenter hon a bodloni anghenion yr ardaloedd mwyaf difreintiedig wedi ei dorri ac yn galw ar y grwpiau LEADER lleol i dargedu'n benodol y cymunedau mwyaf difreintiedig o fewn eu hardaloedd;

Yn pwysleisio bod targedu pobl ifanc o fewn Menter LEADER+ yn bwysig er mwyn mynd i'r afael â'r ffaith fod y grwp penodol hwn yn symud allan o ardaloedd gwledig;

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig fel pwynt bwled newydd:

Yn croesawu Menter Cymru – Iwerddon INTERREG IIIA fel cyfle pwysig i sefydlu cydweithrediad pellach rhwng y ddwy ardal mewn meysydd economaidd a diwylliannol;

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad**

**am 9.05am ddydd Iau, 16 Tachwedd 2000**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**